

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Grŵp Cynghori Technegol

## Ystyriaethau i liniaru'r risg y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o drosglwyddo COVID-19 yn ystod etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu



**19 Mawrth 2021**





© Hawlfraint y Goron 2020

# Papur tystiolaeth CMO a TAC: Ystyriaethau i liniaru'r risg y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o drosglwyddo COVID-19 yn ystod etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

**Diben:** Nod y papur hwn yw amlinellu'r ystyriaethau ymddygiadol, amgylcheddol a modelu sy'n berthnasol i etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a sut y gellir lliniaru'r risg y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o drosglwyddo COVID-19.

**Crynodeb o gyngor:**

- Gallai'r sefyllfa epidemiolegol newid rhwng nawr a dechrau mis Mai, gyda lefelau gwahanol o'r haint yn y gymuned, nifer y brechlynnau a roddwyd a'u heffeithiolrwydd, a'r cyfyngiadau cysylltiedig sydd ar waith. Bydd hyn o bosibl yn effeithio ar y paratoadau (e.e. mwy o waith i annog pobl i bleidleisio drwy'r post er mwyn lleihau'r risg os yw'r cyfraddau heintio yn uchel). Bydd angen adolygu'r dystiolaeth a'r canllawiau yn rheolaidd.

- Ystyrir bod risg is o drosglwyddo'r haint wrth bleidleisio drwy'r post (lefel uchel o hyder). Fodd bynnag, gallai hyn arwain at broblemau gweithredol a phroblemau o ran cydraddoldeb. Byddem yn cefnogi gwaith hyrwyddo i annog pobl sydd ar y rhestr warchod ar hyn o bryd i bleidleisio drwy'r post.

- Dylai'r cyngor hwn gael ei ystyried ochr yn ochr â'r cyfyngiadau eraill a gaiff eu llacio fel rhan o'r adolygiad 21 diwrnod.

- Os yw cyfraddau heintio yn isel, gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau cyfrif wedi'u hawyru'n dda ac wedi bod yn destun asesiad risg, nifer y pleidleiswyr a swyddogion yn cael ei reoli'n ofalus, mesurau rheoli heintiau yn cael eu mabwysiadu a'u gorfodi, ac unrhyw giwiau o bobl yn cadw pellter cymdeithasol yn ffurfio yn yr awyr agored, dylai fod risg isel y caiff y rheini sy'n pleidleisio'n bersonol eu heintio (**lefel uchel o hyder**). Mae angen ystyried y mesurau lliniaru hyn ar gyfer gweithgareddau ymgyrchu hefyd.

- Mae'r model yn tybio y daw unigolion i gysylltiad â mwy o bobl ar ddiwrnod yr etholiad. Dangosir y canlyniadau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, po hwyaf yn y dyfodol yw'r rhagamcanion, y mwyaf yw lefel yr ansicrwydd.

- Wrth ystyried y ddau opsiwn sef 6 Mai ac 8 Gorffennaf, gwelwn mai ychydig iawn o effaith y bydd y ddau opsiwn hyn yn ei chael ar nifer amcangyfrifedig yr achosion, nifer y derbyniadau i'r ysbyty a nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Y rheswm am hyn yw bod nifer cymharol isel o achosion ar gyfer y ddau o dan y senario yn y model hwn. Fodd bynnag, wrth i ni edrych ymhellach i'r dyfodol, mae gennym lai o hyder yn yr amcangyfrifon hyn. Felly, ystyriwn fod lefel uchel o hyder y bydd nifer isel o achosion ar 6 Mai, gan mai hwn yw'r dyddiad sydd agosaf at y cyfyngiadau sy'n rheoli'r feirws ar hyn o bryd.

- Mae marwolaethau a nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai yn gymharol isel hefyd ar ddechrau mis Mai. Fodd bynnag, maent yn uwch os oes lefelau isel o gydymffurfiaeth.

- Mae tystiolaeth o grwpiau ffocws a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru wedi awgrymu bod safbwyntiau gwahanol ynghylch yr etholiad. Mae hyn yn pwysleisio bod angen negeseuon clir i egluro'r penderfyniad a wnaethpwyd a'r hyn mae'n ei olygu yn ymarferol.

- Dylai'r paratoadau ddechrau cyn gynted â phosibl, gan gynnwys trefniadau ymarferol, negeseuon cyhoeddus a gohebiaeth.

- Mae'r papur hwn yn rhoi mwy o fanylion yn y tri maes canlynol:
    - **Ystyriaethau amgylcheddol (Adran 1)** gan gynnwys: ymgyrchu; ffyrdd o bleidleisio; risgiau a mesurau lliniaru mewn perthynas â gorsafoedd pleidleisio (rheoli pleidleiswyr, diogelu staff, addasu'r lleoliad); risgiau a mesurau lliniaru mewn perthynas â chanolfannau cyfrif; argymhelliad.
    - **Ystyriaethau ymddygiadol (Adran 2)** gan gynnwys: ystyriaethau mewn perthynas â chydymffurfiaeth a'r effeithiau cysylltiedig ar yr achosion o drosglwyddo'r feirws; negeseuon cyhoeddus; tystiolaeth o etholiadau sy'n digwydd mewn mannau eraill (gan gynnwys y profiad o gynnal is-etholiadau cynghorau yn yr Alban ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020) a'r bylchau cyfredol o ran tystiolaeth.
    - **Canfyddiadau o waith modelu TAC (Adran 3)** gan gynnwys: canlyniadau senarios wedi'u modelu sy'n ystyried amseru'r etholiad.

**Y bylchau cyfredol a nodwyd o ran tystiolaeth**

Nodwn y byddai'r bylchau canlynol o ran tystiolaeth yn cefnogi'r sail dystiolaeth ar gyfer y papur hwn.

- Sut y gallai bwriad newydd oherwydd y pandemig effeithio ar y niferoedd sy'n pleidleisio?

- Pa dystiolaeth ychwanegol o etholiadau eraill a allai helpu i lywio'r dull a weithredir?

- Beth rydym yn ei wybod am y niferoedd sy'n pleidleisio drwy'r post ar hyn o bryd a'r niferoedd a ragwelir, a'r gallu i brosesu mwy o bleidleiswyr yn y ffordd hon?

- Pa mor debygol ydyw y bydd pobl yn gwneud y gorau o'r cyswllt cymdeithasol y mae'r broses bleidleisio yn ei gynnig fel arfer?

- Pa ymddygiadau risg ychwanegol y dylid eu hatal?

**Adran 1: Ystyriaethau amgylcheddol i liniaru'r risg y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o COVID-19 a drosglwyddir yn ystod etholiadau'r Senedd a**

**Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

Yma cyflwynir canllawiau ar ddefnyddio gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd sy'n ddiogel o ran COVID-19 a gweithgarwch ymgyrchu etholiadol cysylltiedig mewn perthynas â'r etholiadau yng Nghymru ym mis Mai. Tynnir sylw at amrywiaeth o faterion a all arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o drosglwyddo'r haint, ochr yn ochr ag opsiynau lliniaru posibl i liniaru'r risg hon. Nodwn y gall y sefyllfa o ran COVID-19 newid rhwng yr adeg yr ysgrifennwyd y nodyn cyfarwyddyd hwn a dechrau mis Mai pan gynhelir etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Gallai hyn gynnwys newidiadau yn nifer yr achosion o'r clefyd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ymddangosiad ac achosion newydd/cyfredol o fwtaniadau/amrywiolynnau sy'n peri pryder, a llwyddiant y rhaglen frechu. Mae'r holl ffactorau hyn yn debygol o effeithio ar y canllawiau a gyflwynir yma. Felly, argymhellwn y dylai'r canllawiau hyn gael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Ymgyrchu**

Gan fod disgwyl i etholiadau gael eu cynnal yn Lloegr hefyd ym mis Mai, mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi "The Government's Approach to Elections and Referendums During COVID-19". Er bod y canllawiau yn berthnasol i Loegr, argymhellwn y dylid dilyn egwyddorion tebyg ar gyfer gweithgarwch ymgyrchu yng Nghymru. Dyma'r canllawiau yn fras:

Gall gweithgarwch ymgyrchu fynd rhagddo o 8 Mawrth 2021 gan ddilyn cyfres o egwyddorion arweiniol gan gynnwys cadw nifer yr ymgyrchwyr yn isel, cadw pellter cymdeithasol, peidio â mynd i mewn i unrhyw gartrefi, peidio â chymryd rhan os ydych yn hunanynysu neu os oes gennych symptomau a, lle y bo'n bosibl, cynnal cyfarfodydd/ymgymryd â gwaith cynllunio o bell dros y ffôn neu drwy ddulliau digidol. Mae crynodeb ar gael yma.

O dan ganllawiau Llywodraeth y DU, mae'n amlwg nad yw'n dderbyniol i ymgyrchwyr pleidiau ddosbarthu taflenni o dan y cyfyngiadau cenedlaethol cyfredol. O dan gynlluniau'r Alban, gall y broses o ddosbarthu taflenni ddechrau o 15 Mawrth 2021 os bydd digon o gynnydd wedi'i wneud i lacio'r rheolau cyfredol ar gymdeithasu fel bod pedwar person o ddwy aelwyd yn gallu cyfarfod yn yr awyr agored.

Dylai ymgyrchwyr fabwysiadu'r arferion priodol ar gyfer lleihau nifer yr achosion o drosglwyddo COVID-19. Rhoddir crynodeb o'r rhai ar gyfer Lloegr yma. Mae'r canllawiau cyfredol ar gyfer Cymru yma. Argymhellwn y dylid crynhoi'r canllawiau cyffredinol ar gyfer Cymru mewn crynodeb byr ar *"sut i atal y coronafeirws rhag cael ei ledaenu"* yn cynnwys: cadw pellter, hylendid, gorchuddion wyneb, awyru.

**Ffyrdd o bleidleisio**

Mae tair ffordd wahanol o bleidleisio; yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae risgiau, problemau a manteision yn gysylltiedig â phob un. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yw 20 Ebrill 2021. Mae codi ymwybyddiaeth am sut i gofrestru i bleidleisio drwy'r post ar gam cynnar a chwilio am ffyrdd o symleiddio'r broses hon yn hanfodol. Byddem hefyd yn cefnogi gwaith hyrwyddo i annog pobl sydd ar y rhestr warchod ar hyn o bryd i bleidleisio drwy'r post.

**Risgiau a Mesurau Lliniaru mewn perthynas â Gorsafoedd Pleidleisio**

O ran pleidleisiau a fwrir yn bersonol, mae posibilrwydd y gallai SARS-CoV-2 gael ei drosglwyddo wrth i lawer o unigolion o wahanol aelwydydd ddod ynghyd i ryngweithio â'r staff dros gyfnod o ddiwrnod.

Ystyrir bod risg is o drosglwyddo'r haint wrth bleidleisio drwy'r post (**lefel uchel o**

**hyder**), felly yr opsiwn cyntaf i liniaru'r risg hon yw annog pobl i bleidleisio drwy'r post fel dewis cyntaf er mwyn lleihau nifer yr unigolion y mae angen iddynt fynychu gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, gallai hyn yn ei dro arwain at broblemau gweithredol o ran dosbarthu, didoli a chyfrifo post a gallai arwain at broblemau o ran anghydraddoldeb. Dylid edrych ar astudiaeth ddichonoldeb o gapasiti pleidleisiau post er mwyn sicrhau bod modd darparu ar gyfer unrhyw gynnydd mewn pleidleisiau post, a gohebu â'r rhai na allant bleidleisio drwy'r post am ba reswm bynnag er mwyn sicrhau bod dewis amgen addas ar gael iddynt.

At hynny, er mwyn lleihau'r risg y bydd unigolion sydd wedi'u heintio yn mynychu gorsafoedd, dylid rhoi trefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau y gall unigolion sy'n hunanynysu oherwydd COVID-19 fwrw pleidlais frys drwy ddirprwy. Dylid sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu'n eang i etholwyr.

Dylai cynlluniau staffio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau cyfrif gynnwys trefniadau staffio wrth gefn hefyd rhag ofn y bydd aelodau allweddol o staff yn methu bod yn bresennol ar fyr rybudd am eu bod yn hunanynysu. Dylid ystyried demograffeg risg staff gwirfoddol, y posibilrwydd y byddent ar gael ac yn barod i staffio gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau cyfrif. Dylid hefyd ystyried unrhyw ofynion o ran profi, olrhain a diogelu.

Lleolir gorsafoedd pleidleisio mewn nifer o wahanol fathau o leoliadau. Cynghorwn y dylai pob gorsaf bleidleisio fod yn destun asesiad risg a gynhelir gan y swyddog llywyddu gyda chymorth yr awdurdod lleol a swyddogion iechyd yr amgylchedd. Mae gorsafoedd pleidleisio yn fannau lle ceir nifer fawr o ymwelwyr a gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ganolfannau profion llif unffordd torfol a chanolfannau brechu i'w rheoli. Er mwyn lliniaru'r risg y caiff SARS-CoV-2 ei drosglwyddo mewn gorsafoedd pleidleisio, nodwn **dri** phrif mesur rheoli:

1. Rheoli pleidleiswyr

Mae cynnal pellter cymdeithasol o ddau fetr a lleihau'r amser a dreulir dan do yn y lleoliad yn fesurau lliniaru hanfodol (**lefel uchel o hyder**). Bydd angen i bob gorsaf bleidleisio ystyried ei chapasiti diogel a llif unigolion drwy'r orsaf bleidleisio o'r adeg y byddant yn cyrraedd i'r adeg y byddant yn ymadael er mwyn sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol o ddau fetr bob amser.

Rhaid nodi capasiti diogel pob cam yn yr orsaf. Rhaid hefyd nodi sut y dylid rheoli'r llif o unigolion, gan ystyried yn ofalus sut y gellir osgoi pwyntiau atal. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen marciau clir a system i gyfeirio pleidleiswyr o'r fynedfa i'r allanfa. Efallai y byddai'n fuddiol cael rhywun sy'n gallu rheoli achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio, ac sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny. Yr opsiwn gorau yw llif unffordd o bleidleiswyr gyda mynedfeydd ac allanfeydd gwahanol, ond os na fydd hyn yn bosibl mewn lleoliad penodol, bydd angen trefnu bod system ar waith i atal tagfeydd. Dylid ystyried defnyddio lleoliad gwahanol neu leoliad awyr agored hefyd. Er mwyn cadw o fewn capasiti diogel yr orsaf bleidleisio, rhaid i giwiau gael eu rheoli yn yr awyr agored a rhaid cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr, gyda phleidleiswyr yn cael mynediad mewn carfanau er mwyn sicrhau bod cyn lleied o amser â phosibl yn cael ei dreulio dan do o fewn capasiti diogel yr orsaf.

Dylai gorchuddion wyneb fod yn ofynnol o'r adeg y bydd pobl yn ymuno â'r ciw a dylid sicrhau bod cyflenwad o orchuddion wyneb addas ar gael a lle diogel i'w gwaredu er mwyn helpu gyda hyn. Dylai gorsafoedd hylif diheintio dwylo gael eu lleoli mewn

mannau allweddol, a dylid argymell bod pobl yn eu defnyddio'n rheolaidd a'u hannog i wneud hynny. Mae risg y bydd diffyg cydymffurfiaeth ag ymyriadau anfferyllol cyfredol fel gwisgo gorchudd wyneb ac ati felly, unwaith eto, gallai fod yn fuddiol cael rhywun sy'n gallu rheoli achosion o ddiffyg cydymffurfio ac sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny.
Fel y soniodd SAGE, mae sicrhau bod masgiau'n ffitio'n dda ac yn cael eu gwisgo'n gywir yn fater pwysig hefyd, yn ogystal ag addysgu pobl sut i wisgo amddiffynwyr wyneb. Gall hyn gynnig cyfle i addysgu pobl sut i wisgo masgiau'n gywir a sicrhau eu bod yn ffitio'n dda, nodi'r math o fasgiau sy'n effeithiol, a rôl amddiffynwyr wyneb wrth giwio. Dylid cynnal adolygiad o orchuddion wyneb mewn perthynas ag amrywiolynnau newydd sy'n peri pryder ar y pryd.

2. Diogelu staff

Bydd disgwyl i staff gorsafoedd pleidleisio ac ymwelwyr/rhifwyr swyddogol weithio dan do yn yr orsaf bleidleisio am gyfnodau hir, o gymharu â phleidleiswyr, a bydd disgwyl iddynt ryngweithio â llawer o bleidleiswyr yn ystod y dydd. O ganlyniad, byddant yn dod i gysylltiad yn fwy ag aerosolau llai o faint a all gynnwys SARS-CoV-2 o bosibl. Er bod cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr yn fesur rheoli pwysig ar gyfer lleihau cysylltiad, dylid hefyd gynnig hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn effeithiol, gyda phwyslais ar ymddwyn mewn ffordd ddiogel a'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol. Nodir bod yr ensemble o gyfarpar diogelu personol sesiynol a neilltuir ar gyfer staff sy'n cynnal profion asymptomatig neu staff brechu (e.e. masg llawfeddygol gwrth-hylif math IIR, cyfarpar diogelu llygaid, ffedog, menig os oes cyswllt uniongyrchol â deunyddiau a gyffyrddir gan bleidleiswyr) yn ategol i sgriniau persbecs hyd llawn. Dylid trefnu bod cyfarpar diogelu personol a ddefnyddiwyd yn cael ei waredu'n ddiogel mewn gorsafoedd. Dylid cynnal adolygiad o orchuddion wyneb mewn perthynas ag amrywiolynnau newydd sy'n peri pryder ar yr adeg y cynhelir yr etholiadau.
Gellir lleihau'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo rhwng pleidleiswyr drwy leihau amseroedd oedi cymaint â phosibl, arfer hylendid dwylo, defnyddio gorchuddion wyneb, lleihau pwyntiau cyffwrdd a chadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd aelodau o staff yn treulio mwy o amser yn yr orsaf bleidleisio, felly dylai cyfarpar diogelu, tebyg i'r cyfarpar a ddefnyddir mewn canolfannau profion llif unffordd, gael ei ystyried fel mesur rheoli COVID-19 ar gyfer y staff. Byddai sicrhau bod profion llif unffordd ar gael i'r staff yn rhoi mwy o hyder iddynt ac yn helpu i atal y feirws rhag cael ei ledaenu. Dylid hefyd ystyried effaith COVID-19 ar y ddarpariaeth cymorth cyntaf mewn gorsafoedd pleidleisio.

3. Addasu'r lleoliad

Mae maint a chynllun canolfannau pleidleisio yn amrywio'n fawr. Mae gan bob un ohonynt eu manteision a'u problemau o ran risgiau trosglwyddo ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru. Byddai asesiadau risg cychwynnol sy'n nodi lleoliadau addas neu orsafoedd pleidleisio amgen neu lochesi dros dro y gellir eu defnyddio fel pabell fawr sy'n cynnwys pellter diogel i giwio, lle i bleidleisio tra'n cadw pellter cymdeithasol, dau ddrws ac ati yn fuddiol wrth leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Byddai asesiad risg dilynol yn helpu i nodi capasiti llawn yr orsaf ac ystyriaethau eraill fel arwyddion, ble i leoli cyfarpar diogelu personol/hylif diheintio dwylo a ph'un a oes angen bythau

pleidleisio ychwanegol er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y broses bleidleisio yn ddiogel o ran COVID.

Yn ôl SAGE, mae system awyru effeithiol yn ffordd bwysig o leihau achosion o SARS-CoV-2 a drosglwyddir o fwy o bellter. Oherwydd yr amser sydd ar gael a chapasiti gorsaf bleidleisio unigol, gall fod yn anodd cynnal asesiad risg llawn yn cynnwys patrymau llif aer, cyfraddau trosiant aer ac ati ym mhob gorsaf. Felly, mae sicrhau bod yr orsaf wedi'i hawyru'n dda neu wedi'i gor-awyru hyd yn oed yn well na system awyru annigonol. Rhoddir ystyriaeth i gyfforddusrwydd thermol, a dylai'r staff sicrhau bod eu dillad yn addas ar gyfer y tywydd ar y diwrnod. Er mwyn cael budd o system awyru well, dylid nodi'r holl ffenestri a'r drysau y gellir eu hagor yn ddiogel a sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar agor drwy'r dydd.

Gall cyffwrdd ag eitemau halogedig fod yn llwybr trosglwyddo, er bod llai o risg ynghlwm wrth hyn. Gellir lliniaru'r risg hon drwy ddilyn arferion hylendid dwylo a phrotocolau glanhau trwyadl, rheolaidd ac effeithiol. O ran pleidleiswyr, byddai hyn yn cynnwys defnyddio hylif diheintio dwylo ar gamau allweddol yn ystod eu hymweliad a gwisgo masgiau/gorchuddion wyneb yn gywir. O ran staff, byddai'n cynnwys defnyddio hylif diheintio dwylo yn rheolaidd, golchi dwylo yn rheolaidd a defnyddio cyfarpar diogelu priodol, felly dylid sicrhau y darperir hyfforddiant ar olchi dwylo a bod cyfleusterau ar gael. Mae angen i asesiadau risg hefyd gynnwys toiledau ar gyfer staff ac ymwelwyr ac ardaloedd i'r staff gael seibiant i ffwrdd o'r orsafoedd pleidleisio.

Dylid sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bwyntiau cyffwrdd yn y ganolfan, er enghraifft drwy osod rhywbeth i ddal drysau ar agor lle y bo'n bosibl, sydd hefyd yn gwella'r llif aer. Mae pwyntiau cyffwrdd eraill yn cynnwys papurau pleidleisio, bythau a phensiliau/pennau. Caiff SARS-CoV-2 ei anactifadu'n gymharol gyflym ar gyfryngau mandyllog fel papur a phren (gyda lleihad pedwar log o ddos crynodedig o'r feirws (~ 6.8 log $TCID_{50}$ $ml^{-1}$) o fewn 30 munud ar bapur a chwe awr ar bren; Chin et al. 2020). Dylid ystyried pa mor hawdd ydyw i ddiheintio strwythurau bythau pleidleisio yn rheolaidd. Er enghraifft, gallai gosod gorchuddion/matiau plastig ar arwynebau bythau pleidleisio wneud y bythau yn haws/mwy effeithiol i'w glanhau o gymharu ag arwynebau pren. Dylai'r fantais o lanhau'n rheolaidd ar ôl pob pleidleisiwr gael ei nodi mewn asesiad risg. Mae manteision glanhau'n rheolaidd yn cynnwys lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws tra bod yr anfanteision yn cynnwys mwy o amser oedi i bleidleiswyr. Dylid gofyn i bleidleiswyr ddod â'u pennau eu hunain, ond dylid rhoi system ar waith hefyd i sicrhau bod pennau/pensiliau diheintiedig ar gael i'r rhai nad ydynt yn dod â rhai eu hunain er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anghydraddoldeb. Un enghraifft bosibl fyddai cylchdroi'r offer ysgrifennu a ddefnyddir a'u diheintio mewn hylif (yn ddelfrydol) neu ei sychu mewn hylif 70% alcohol rhwng pleidleiswyr.

Nodwyd bod risg wrth giwio i bleidleisio. Tynnwyd sylw at y ffaith bod sawl mantais bosibl i giwio yn yr awyr agored, yn enwedig wrth gadw pellter cymdeithasol. Felly, mae angen nodi ardaloedd lle y gellir rheoli ciwiau o bobl sy'n cadw pellter cymdeithasol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae dadl hefyd ynghylch effaith glaw/gwres/tywydd gwael ac ati ac mae hyn yn rhywbeth y dylai'r asesiad risg ei ystyried. Dylai hefyd ystyried llwybrau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed neu bobl sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r orsaf (yn enwedig os yw'n bwrw glaw neu mewn gwres eithafol).

Gall rhoi profion llif unffordd i bleidleiswyr cyn caniatáu iddynt fynd i mewn i orsafoedd pleidleisio fod yn fanteisiol. Fodd bynnag, teimlir bod y fantais hon yn cael ei gwrthbwyso gan yr anfanteision, sef pryderon posibl ynghylch cyfrinachedd a allai wneud i bobl feddwl ddwywaith am bleidleisio, pleidleiswyr yn treulio mwy o amser yn cael y prawf ac argaeledd y profion eu hunain.

**Risgiau a Mesurau Lliniaru mewn perthynas â chanolfannau cyfrif**
Mae'r posibilrwydd y gallai SARS-CoV-2 gael ei drosglwyddo mewn canolfannau cyfrif wedi'i nodi hefyd. Mae'r risgiau hyn yn deillio'n bennaf o gyswllt personol yn y ganolfan. Dylid sicrhau mai'r nifer lleiaf gofynnol o bobl sy'n cael mynediad er mwyn cynnal proses etholiadol gywir a thryloyw. Lle y bo'n bosibl, dylai'r bobl hyn weithio mewn sifftiau swigen ac ni ddylent ddod i gysylltiad â phobl eraill sy'n gweithio yno.
Fel uchod, dylid cynnal asesiad risg o bob lleoliad er mwyn sicrhau bod cyn lleied o gyswllt â phosibl, bod unigolion yn cadw pellter o ddau fetr a bod system awyru effeithiol ar waith. Dylid hefyd ystyried y gwahanol weithgareddau fel ardaloedd seibiant a thoiledau. O ystyried y ffaith bod y feirws yn cael ei anactifadu'n gyflym ar bapur, dylai'r risgiau gweddilliol sy'n gysylltiedig â chyfrif papurau gael eu rheoli drwy ddilyn arferion hylendid dwylo rheolaidd ac effeithiol. Dylai'r staff wisgo gorchuddion wyneb tair haen bob amser. Dylid cynnal adolygiad o orchuddion wyneb mewn perthynas ag amrywiolynnau newydd sy'n peri pryder ar yr adeg y cynhelir yr etholiad. Dylid ystyried argaeledd gwirfoddolwyr a chynlluniau wrth gefn os na fydd staff ar gael. Yn unol â'r canllawiau cyfredol, dylai'r rhai sy'n sefyll etholiad ystyried peidio â mynychu canolfannau cyfrif gyda grŵp mawr i ddathlu. Gallai hyn effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd a chreu risg bosibl fel y nodir yn y canllawiau ar ddigwyddiadau.

**Argymhellion**
Nodir yr argymhellion o dan y tri phrif fath o risg, yn ogystal â'r ffyrdd o bleidleisio:

**Ffyrdd o bleidleisio**
1. Annog aelodau o'r cyhoedd i gofrestru i bleidleisio drwy'r post a defnyddio'r gwasanaeth hwnnw.
2. Cynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn sicrhau bod y systemau post a chyfrif yn cael eu paratoi'n effeithiol i ymdopi â mwy o bleidleisiau, a dod o hyd i ffyrdd o symleiddio'r broses gwneud cais.
3. Datblygu system garlam ar gyfer enwebu dirprwyon i'r rhai sy'n hunanynysu/sy'n symptomatig a/neu sy'n methu mynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol – gan gynnwys enwebiadau ar y diwrnod.
4. Datblygu ymgyrch sy'n annog y rhai sydd ar y rhestr warchod i gofrestru i bleidleisio drwy'r post a dangos sut mae gwneud hynny.

**Rheoli pleidleiswyr**
5. Ystyried y posibilrwydd o ymestyn oriau agor gorsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod y pleidleiswyr sy'n ymweld â nhw wedi'u gwasgaru, a lleihau problemau llif a nifer y bobl yn yr ardal.
6. Cynnig masgiau/gorchuddion wyneb a hylif diheintio dwylo.
7. Sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol (gan gynnwys systemau unffordd), yn gwisgo masg/gorchudd wyneb ac yn glanhau eu dwylo wrth gyrraedd/ymadael a bod yr arferion hynny yn cael eu gorfodi.
8. Ystyried y garfan o bleidleiswyr.

**Diogelu staff**
9. Sicrhau bod profion llif unffordd ar gael i'r staff cyn y sesiwn ac ar ôl hynny.

10. Dylid rhoi sgriniau persbecs hyd llawn a chyfarpar diogelu personol llawn (tebyg i'r cyfarpar a ddefnyddir mewn gorsafoedd brechu a gorsafoedd profion llif unffordd) i swyddogion er mwyn lleihau unrhyw amlygiad uniongyrchol i aerosolau anadlol ac arwynebau a allai fod wedi'u halogi.
11. Datblygu rôl ar gyfer rheoli mynediad, rheoli ciwiau, addysgu pobl am sut i ffitio masgiau yn gywir, y math o fasg ac amddiffynnydd wyneb a rheoli achosion o ddiffyg cydymffurfio.
12. Dylai ymgyrchoedd yn y cyfryngau gyfeirio at y broses o fynychu gorsafoedd pleidleisio o'r argymhellion.

**Addasu'r lleoliad**

13. Asesiad risg cychwynnol i nodi unrhyw orsafoedd pleidleisio addas/anaddas ac ystyried y cynllun (dwy allanfa, lle i giwio, system awyru effeithiol; p'un a oes lleoliad amgen neu opsiwn i ddefnyddio pabell dros dro ag ochrau iddi) cyn cynnal asesiad risg mwy trwyadl. Dylai'r asesiadau hyn gael eu cynnal ym mhob orsaf er mwyn nodi ei chapasiti llawn ac ati, a dylid nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad risg.
14. Dylai'r broses bleidleisio gael ei chynnal mewn ystafelloedd cynllun agored sydd wedi'u hawyru'n dda ac sydd â llif da o aer. Fel arall, dylid defnyddio gofodau wedi'u hamgáu'n rhannol yn yr awyr agored fel pebyll gydag ochrau iddynt a ddylai gael eu cynnwys yn yr asesiad risg.
15. Dylid sicrhau bod pellter cymdeithasol rhwng bythau pleidleisio (dau fetr) a bod mat plastig yn cael ei osod arnynt er mwyn sicrhau ei bod yn haws eu glanhau. Dylent gael eu glanhau â diheintydd ar ôl pob pleidleisiwr.
16. Datblygu opsiynau ar gyfer nodi ffyrdd o sicrhau y cyffyrddir â phennau a ddefnyddiwyd cyn lleied a phosibl: fel pleidleiswyr yn dod â'u pennau eu hunain, darparu un pen y gall pleidleiswyr fynd ag ef adref gyda nhw, swyddog yn golchi pennau pan fydd pobl yn gadael ac ati.
17. Rhaid nodi ffyrdd o leihau ciwiau ac agosrwydd pobl sy'n ciwio.

**Risgiau a Mesurau Lliniaru mewn perthynas â chanolfannau cyfrif**

18. Cynnal asesiad risg o'r lleoliad er mwyn sicrhau bod y system awyru, y cyfleusterau a'r trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac ati yn addas.
19. Lleihau nifer y bobl ar y safle a sicrhau bod pawb yn gwisgo gorchuddion wyneb, yn cadw pellter cymdeithasol, yn glanhau eu dwylo ac ati.

**Cyfeiriadau**


- https://www.nga.org/center/publications/election-health-safety-covid-19/
- https://www.cdc.gov/coronavirus/2019-ncov/community/election-polling-locations.html
- https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/928720/S0789_EMG_Role_of_Ventilation_in_Controlling_SARS-CoV-2_Transmission.pdf
- https://doi.org/10.1016/S2666-5247(20)30003-3
- https://pubs.acs.org/doi/10.1021/acs.estlett.0c00966


**Adran 2: Ystyriaethau ymddygiadol i liniaru'r risg y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o drosglwyddo COVID-19 yn ystod etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

**Crynodeb**

- Mae'r nodyn hwn yn cwmpasu materion sy'n gysylltiedig â chynnal etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu – nid dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'r opsiwn o'u gohirio. Yn amlwg, gallai'r sefyllfa epidemiolegol newid rhwng nawr a dechrau mis Mai, gyda lefelau gwahanol o'r haint yn y gymuned a'r cyfyngiadau cysylltiedig sydd ar waith. Bydd hyn o bosibl yn effeithio ar y paratoadau (e.e. mwy o bwyslais ar annog pobl i bleidleisio drwy'r post er mwyn lleihau'r risg os bydd cyfraddau heintio yn rhy uchel).

- Yn gryno, os bydd gorsafoedd pleidleisio wedi'u hawyru'n dda, os caiff dwysedd y pleidleiswyr ei reoli'n ofalus ac os bydd pobl yn ciwio yn yr awyr agored, dylai'r risg y caiff yr haint ei drosglwyddo wrth bleidleisio fod yn isel.

- Mae nifer o faterion amgylcheddol y bydd cydweithwyr TAG yn eu hystyried mewn perthynas â phleidleisio'n bersonol. Yn eu plith fydd lleoliad, maint a system awyru'r orsaf, darparu pensiliau a rennir fel arfer, trefniadau hylendid, arwyddion, oriau agor, system giwio, capasiti llawn ac ati. Bydd pob un o'r rhain yn hanfodol wrth fynd ati i adolygu'r lleoliad a ddewiswyd ac unrhyw waith addasu lle y bo'n bosibl. Un enghraifft bosibl o gam lliniaru syml iawn fyddai annog pobl i ddod â'u pensil eu hunain.

- Mae cyngor blaenorol gan SAGE ar leihau achosion o drosglwyddo'r feirws o fewn aelwydydd wedi pwysleisio pwysigrwydd llunio cynlluniau. Fel y cyfryw, dylai awdurdodau lleol ddechrau paratoi cyn gynted â phosibl a dylai unrhyw lenyddiaeth nodi bod angen cofio gwisgo gorchudd wyneb, diheintio dwylo a chadw pellter corfforol o ddau fetr, yn ogystal ag atgyfnerthu'r ffaith bod cyfle i bleidleisio drwy'r post. Dylai pecynnau ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am orsafoedd pleidleisio gael eu cynhyrchu cyn gynted â phosibl, gan ddefnyddio arbenigedd priodol ym maes cynllunio gwasanaethau er mwyn ymgorffori'r materion a nodir uchod. Gallai rhestr wirio gael ei llunio hefyd ar gyfer cynnal asesiad risg o leoliadau. O gofio bod y niferoedd sy'n pleidleisio yn amrywio fel arfer, gallai'r lleoliadau pleidleisio hynny lle gwelwyd nifer uwch o bleidleiswyr yn flaenorol gael eu rhannu ar yr achlysur hwn, gyda negeseuon yn esbonio pam bod hyn wedi digwydd.

- O ran pleidleisio drwy'r post, bydd yn bwysig asesu'r capasiti cyfredol a'r cynnydd tebygol o ystyried yr amgylchiadau presennol, a chynllunio i fodloni'r galw ychwanegol sy'n debygol cyn belled ag y bo'n bosibl.

- Un thema gyffredinol yw pwysigrwydd cyfathrebu ac, yn benodol, darparu rhesymeg glir dros benderfyniadau a gymerir neu gyngor a roddir i'r cyhoedd. Efallai bod y pwyslais hwn ar 'pam' yn ymddangos yn amlwg ond mae'n gyson â'r cyngor a roddwyd gan SPI-B drwy gydol y pandemig (gweler enghraifft sy'n cyfeirio at godi cyfyngiadau). Mae hefyd wedi bod un o'r themâu sydd wedi deillio o'r grwpiau ffocws a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos penodol hwn, byddai'n bwysig rhoi neges glir i'r cyhoedd ynghylch pam bod yr etholiadau'n cael eu cynnal yn ystod pandemig (gyda dadleuon ynghylch pwysigrwydd dilyn y broses ddemocrataidd), pam bod angen eu

gohirio (os yw'n briodol), bod pleidleisio yn fater personol ac na ddylai gael ei ystyried yn ddigwyddiad cymdeithasol, pam bod canfasio ar garreg y drws yn cael ei ystyried yn bwysig ac yn ddiogel ac ati.

- Bydd angen i'r negeseuon hynny hefyd bwysleisio effeithiolrwydd ymddygiadau diogelu hyd yma a'r ffaith bod angen iddynt barhau er mwyn sicrhau bod achosion o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned yn cael eu cadw'n isel. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i fwy o bobl gael eu brechu. Efallai y bydd y bobl hynny yn ystyried eu bod yn wynebu llai o risg ac yn rhoi'r gorau i gydymffurfio â'r mesurau iechyd y cyhoedd a roddwyd ar waith i leihau achosion o drosglwyddo COVID-19, gan gynnwys gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, cadw pellter cymdeithasol, ac osgoi mynd i leoliadau risg uchel.

- Bydd angen i negeseuon cyhoeddus hefyd egluro'r broses ar gyfer mynychu gorsafoedd pleidleisio a rhoi sicrwydd i bleidleiswyr o bosibl y bydd y mesurau lliniaru angenrheidiol ar waith ar gyfer rheoli'r risg o gael yr haint. Mae rhoi gwybod pam bod penderfyniadau yn cael eu cymryd h.y. i gynnal yr etholiad ar yr adeg hon, yn gyson â'r cyngor a roddwyd gan SPI-B (is-grŵp ymddygiadol SAGE).

- Byddai hefyd yn ddefnyddiol defnyddio sianeli cyfathrebu er mwyn helpu pobl gydag unrhyw ymddygiad cymdeithasol diwygiedig, o gofio'r normau presennol ynghylch ymddygiadau fel cyfarch pobl. Mae Llywodraeth yr Alban wedi datblygu deunyddiau ar hyn a all fod yn ddefnyddiol.

- Yn ogystal â phleidleiswyr, byddai'n bwysig osgoi achosion ymhlith swyddogion pleidiau a'r rhai sy'n gwirfoddoli yn yr etholiad. Gallai cynnal profion ar swyddogion sy'n gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio ymlaen llaw fod yn fesur rhagofalus doeth er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint.

- Tybir y bydd y trefniadau cyfredol ar gyfer cynnal sesiynau briffio'r cyfryngau yn parhau o ystyried pwysigrwydd cyfleu negeseuon ffeithiol a sicrhau arweinyddiaeth weladwy, a thybir bod y canllawiau sy'n cwmpasu'r cyfnod cyn yr etholiad yn caniatáu hyn.

- Mae tystiolaeth o grwpiau ffocws a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru wedi awgrymu bod safbwyntiau gwahanol ynghylch yr etholiad. Er enghraifft, un pryder a nodwyd oedd y gallai cynnal etholiad dynnu sylw oddi ar yr ymdrechion bob dydd sy'n cael eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus. Safbwynt arall oedd y posibilrwydd y gallai'r ymateb i'r pandemig gael ei 'wleidyddoli', y pryder y gallai penderfyniadau gael eu dylanwadu gan yr hyn a allai arwain at enillion etholiadol byrdymor ar draul rhagolygon tymor hwy (e.e. codi'r cyfyngiadau presennol yn rhy gyflym). Gallai hyn fod yn bwysig o ystyried tystiolaeth ynghylch ymddiriedaeth pobl yn y llywodraeth a'r ffordd y mae pobl yn ymddwyn. Dylid nodi nad oedd gan rai pobl unrhyw bryderon ynghylch cynnal yr etholiad, ond mae'r amrywiaeth hon o safbwyntiau yn pwysleisio bod angen negeseuon clir i egluro'r penderfyniad a wnaethpwyd a'r hyn mae'n ei olygu yn ymarferol.

- Mae yna amryw o bethau y mae angen eu hystyried o ran cydymffurfiaeth a'r effeithiau cysylltiedig ar gyfraddau trosglwyddo, gan gydnabod nad oes fawr ddim tystiolaeth.

  - O ystyried y ffaith bod yr etholiad hwn yn cael ei gynnal fwy na blwyddyn ers dechrau'r pandemig, a bod pobl wedi wynebu cyfnodau estynedig o gyfyngiadau (gan gynnwys dros fisoedd y gaeaf) a'r straen meddyliol sy'n gysylltiedig â hynny, mae'n bosibl y gallai rhai pobl ystyried bod y broses bleidleisio yn ffordd iddynt weld ffrindiau/teulu (e.e. galw heibio ar y ffordd i'r orsaf bleidleisio), yn enwedig os bydd cyfraddau heintio yn parhau i ostwng. Mae'n bosibl, o dan yr amgylchiadau, y gallai'r posibilrwydd o weld wynebau cyfarwydd arwain at nifer uwch o bleidleiswyr.

  - Hefyd, mae oedran cyfartalog pleidleiswyr yn dueddol o fod yn uwch[1] ac mae'r grwpiau hyn wedi cael eu brechu, felly efallai y byddant yn teimlo eu bod yn ddiogel. Byddai'n ddoeth pwysleisio bod angen dilyn ymddygiadau diogelu ar ôl cael y brechiad. Dylai ffocws ymddygiadol ymestyn y tu hwnt i'r bwth pleidleisio i'r system ehangach y mae'r etholiadau yn cael eu cynnal ynddi. Dylai risgiau ymddygiadol a mesurau lliniaru gael eu nodi cyn gynted â phosibl. Mae dull gweithredu tebyg wedi'i weld yn ddiweddar wrth ail-gyflwyno addysgu wyneb yn wyneb i ddisgyblion iau a negeseuon ynghylch ymddygiadau ‘wrth gatiau'r ysgol’.

  - Yn yr un modd, mae posibilrwydd o hyd y bydd llai o bleidleiswyr na'r arfer o ystyried y bydd pobl o bosibl yn fwy gwyliadwrus nag yr oeddent mewn etholiadau blaenorol. Gallai hyn fod yn heriol, a bydd angen ystyried y ffordd orau o annog pobl i bleidleisio drwy'r amryw fesurau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith.

- O ran gohebiaeth ar y diwrnod i bwysleisio'r pwyntiau a nodwyd uchod, mae posibilrwydd y gellir defnyddio gwaith digidol wedi'i geodargedu, tebyg i'r enghraifft o ysgolion a nodwyd uchod. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith hwn, ond gall fod yn opsiwn i'r Senedd neu'r Comisiwn Etholiadol. At hynny, dylai deunyddiau etholiad pob plaid allu pwysleisio pa mor bwysig ydyw i leihau risgiau drwy ddilyn ymddygiadau diogelu allweddol wrth bleidleisio'n bersonol neu dynnu sylw at y cyfle i bleidleisio drwy'r post.

## Tystiolaeth o fannau eraill

- Mae tystiolaeth o'r etholiad arlywyddol diweddar yn yr UD yn awgrymu y dylai fod yn bosibl cynnal etholiad yng Nghymru heb iddo beri unrhyw risg fawr o ran cyfraddau heintio. Er bod nifer yr achosion o'r haint wedi cynyddu, credir bod yr achosion hynny yn rhan o gynnydd parhaus ac nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu effaith achosol.

[1] Er y cydnabyddir bod pobl ifanc 16-17 oed yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn 2021

- Mae cysylltiadau wedi'u gwneud yn yr UD rhwng gweithgareddau penodol a'r etholiad, yn benodol ralïau[2] a'r effeithiau ar swyddogion pleidleisio[3]. Fodd bynnag, mae ralïau ar yr un raddfa â'r rhai a welwyd yn yr UD yn annhebygol iawn yng Nghymru.

- Wrth edrych ymhellach i'r dyfodol, mae gwaith dadansoddi a gomisiynwyd gan y Sefydliad Democratiaeth a Chymorth Etholiadol Rhyngwladol[4] wedi edrych ar agweddau amrywiol ar yr etholiad yn yr UD, gan gynnwys cofrestru pleidleiswyr a'r gwersi a ddysgwyd.

- Mae blog diweddar gan y Comisiwn Etholiadol[5] yn nodi bod nifer o etholiadau wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus ledled y byd ers dechrau'r pandemig, gyda gwledydd yn addasu ac yn ehangu modelau presennol (pleidleisio ymlaen llaw yn arbennig) yn hytrach na chyflwyno systemau heb eu profi ar fyr rybudd. Mae Cymru mewn sefyllfa dda – mae ganddi brosesau sefydledig i bleidleisio ymlaen llaw a phleidleisio drwy ddirprwy. Nodir bod cyfathrebu yn gynnar yn allweddol. Un enghraifft o arfer da yw is-etholiad Eden-Monaro yn Awstralia. Rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i swyddogion pleidleisio yn yr UE. O gofio hyn, cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol gyfres o amcanion ar gyfer cynnal etholiadau yn y cyd-destun iechyd cyhoeddus cyfredol ar ddiwedd 2020[6].

- Yn agosach at gartref, mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi edrych ar y profiad o gynnal is-etholiadau cynghorau yn yr Alban ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020[7]. Daethpwyd i'r casgliad canlynol:

    - Gall etholiadau gael eu cynnal yn ddiogel ond mae angen cymryd camau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y cyngor a roddwyd ar gadw pellter corfforol, hylendid dwylo a gwisgo gorchuddion wyneb yn cael ei ddilyn mewn digwyddiadau etholiadol allweddol.

    - Maent yn cymryd mwy o amser i'w cynllunio ac yn costio mwy i'w cynnal – bydd angen sicrhau bod y trefniadau yn gadarn a bod digon o adnoddau ar gael.

    - Mae lleoliadau a staffio yn allweddol – bydd angen lleoliadau sy'n caniatáu i bobl gadw pellter corfforol a nifer digonol o staff er mwyn helpu gydag agweddau allweddol ar yr etholiad.

---

[2] https://siepr.stanford.edu/research/publications/effects-large-group-meetings-spread-covid-19-case-trump-rallies
[3] Gweler er enghraifft https://www.theguardian.com/us-news/2020/dec/07/pandemic-covid-coronavirus-election-poll-workers a https://www.wabe.org/county-employees-saved-georgias-elections-but-at-what-personal-cost/
[4] https://www.idea.int/sites/default/files/impact-of-covid-19-on-the-2020-us-presidential-election.pdf
[5] https://www.electoralcommission.org.uk/learning-impact-covid-19-international-elections
[6] https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/elections-and-referendums/etholiadau-ar-ddod/amcanion-ar-gyfer-etholiadau-llwyddiannus-yn-y-cyd-destun-iechyd-cyhoeddus-cyfredol
[7] https://www.electoralcommission.org.uk/who-we-are-and-what-we-do/our-views-and-research/our-research/conducting-elections-under-coronavirus-restrictions

- Mae ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid, yn ogystal â chyflenwyr, yn bwysig.
- Mae llawer o bleidleiswyr yn dewis pleidleisio'n bersonol o hyd – bydd angen i unrhyw ohebiaeth nodi'n glir bod gorsafoedd pleidleisio yn ddiogel, bod amrywiaeth o opsiynau pleidleisio ar gael ac y dylid gwneud cais am bleidlais bost yn gynnar.

**Adran 3: Modelu amseru etholiadau yng Nghymru**

**Is-gell Modelu TAC**

## 1. Crynodeb

- Mae'r papur hwn yn ystyried a fyddai'n well cynnal etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 6 Mai neu 8 Gorffennaf.
- Dylai'r cyngor hwn gael ei ystyried ochr yn ochr â phenderfyniadau i godi cyfyngiadau eraill fel rhan o'r adolygiad 21 diwrnod. Mae'r model yn tybio y daw unigolion i gysylltiad â mwy o bobl ar ddiwrnod yr etholiad.
- Rydym eisoes wedi gweld newidiadau cyflym mewn cyfraddau trosglwyddo yng Nghymru ac yn rhyngwladol, ac mae hyn hyd yn oed yn fwy tebygol o ystyried yr achosion o'r amrywiolyn B117 ('amrywiolyn Caint') sy'n haws ei drosglwyddo a ganfuwyd yng Nghymru.
- Mae profion ymlaen llaw a/neu gyfnod hunanynysu o 10 diwrnod ymlaen llaw ar gyfer y rhai fydd yn destun mwy o gysylltiadau (e.e. y rhai fydd yn cyfrif pleidleisiau) yn debygol o leihau nifer yr achosion o'r feirws a drosglwyddir yn yr etholiad, yn enwedig y rhai sy'n ymgymryd â phrosesau cyfrif.
- Mae effaith achosion o drosglwyddo'r feirws yn debygol o fod ar ei hisaf pan fydd yr achosion o COVID-19 ar eu hisaf. Felly, mae'r amcangyfrifon a fodelwyd yn argymell mai'r dyddiad gorau ar gyfer cynnal yr etholiad yw 6 Mai. Y rheswm am hyn yw mai dyma'r dyddiad sydd agosaf at gyfnodau o gyfyngiadau sy'n llwyddo i leihau lledaeniad y feirws ar hyn o bryd.
- Nid yw'r papur hwn yn ystyried effeithiau ymddygiadol posibl ar gydymffurfiaeth â'r cyfyngiadau sydd ar waith. Fodd bynnag, mae lefelau 'uchel' ac 'isel' o gydymffurfiaeth wedi'u cynnwys er mwyn dangos yr effaith bosibl. Mae lefel isel o gydymffurfiaeth yn ychwanegu tua 10% o gysylltiadau yn ychwanegol at y cyfyngiadau sydd ar waith ar yr adeg honno.

## 2. Nod

Nod y papur hwn yw ystyried senarios ar gyfer COVID-19 yng Nghymru rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2021 sy'n cynnwys effaith etholiad, ochr yn ochr â thybiaethau gwahanol am effaith amrywiolynnau newydd, effeithiau brechlynnau, a gwahanol lefelau o gyfyngiadau, yn ogystal â gallu unigolion i barhau i gydymffurfio â'r cyfyngiadau a pharhau i fabwysiadu ymddygiadau diogelu (a labelir yn y papur hwn fel 'cydymffurfiaeth'). Rydym wedi addasu amserlen map trywydd Llywodraeth y DU

ar gyfer y dadansoddiad hwn er mwyn ystyried effaith etholiadau ar 6 Mai neu 8 Gorffennaf.

## 3. Cefndir

Daeth Cymru yn destun cyfyngiadau lefel 4 ar 20 Rhagfyr 2020 ar ôl i'r amrywiolyn newydd sy'n peri pryder 202012/01 gael ei ganfod. Roedd yr amrywiolyn hwn yn arwain at fwy o achosion a gadarnhawyd o COVID a mwy o bwysau ar y GIG. [8] Erbyn hyn, mae dros 31% o boblogaeth Cymru wedi derbyn un dos o'r brechlyn, gan gynnwys dros 94% o'r rhai dros 80 oed. Disgwylir i hyn arwain at lai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a llai o farwolaethau yn y grwpiau sydd wedi cael y brechlyn, os nad yw'r gyfradd drosglwyddo yn cynyddu uwchlaw'r lefel a welwyd yn flaenorol.
Hyd yn hyn yn 2021, mae ysgolion ledled Cymru wedi bod yn addysgu disgyblion, ac eithrio plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, o bell. Ceir tystiolaeth dda sy'n dangos bod effaith peidio â mynd i'r ysgol ar blant yn sylweddol o ran addysg a'u hiechyd corfforol a meddyliol, ac mae Gweinidogion Cymru wedi nodi'r bwriad i ailagor ysgolion yn gyntaf ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben. [9]

## 4. Crynodeb o'r Dystiolaeth

Mae tystiolaeth gyfredol gan SAGE a SPI-M ac ECDC yn awgrymu y gallai fod yn haws i'r amrywiolyn newydd VOC 2020/12/01 (B117 neu amrywiolyn Caint) gael ei drosglwyddo, gyda mantais Rt gymharol o 0.4 i 0.7. [10] Mae'n bosibl y caiff hyn ei weld yn arbennig pan fydd Rt uwchlaw 1, sy'n golygu y gallai Cymru weld achosion yn cynyddu'n gyflymach wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Awgrymodd gwaith dadansoddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod Rt yr amrywiolyn newydd wedi cymryd mwy o amser i symud islaw 1 ym mis Ionawr 2021 o gymharu ag amrywiolynnau "gwyllt" blaenorol. Mae pryder hefyd ynghylch amrywiolynnau newydd eraill sydd â mwtaniadau E484K, ac amrywiolyn De Affrica.
Mae datganiad consenswS diweddar gan SPI-M yn awgrymu y gallai ysgolion ychwanegu rhwng 10% a 50% at y rhif Rt pan fyddant yn agor yn llawn, gyda'r rhan fwyaf o fodelau yn awgrymu bod cyfraddau trosglwyddo a rhagdueddiad yn is ymhlith plant yn eu harddegau o gymharu ag oedolion, ac yn is ymhlith plant iau o gymharu â phlant yn eu harddegau. [11] Fodd bynnag, mae'r ffaith bod ysgolion cynradd yn dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb yn golygu y gallai fod yn fwy tebygol y bydd rhieni yn dychwelyd i'r gwaith neu'n cael mwy o gysylltiadau.
Mae papurau diweddar gan SPI-M wedi awgrymu bod bygythiad go iawn y gwelwn drydedd ton o COVID-19, hyd yn oed ar ôl i'r rhaglen frechu fod yn gymharol lwyddiannus, yn enwedig o ran derbyniadau i'r ysbyty lle mae mwy na chwarter ohonynt yn y grwpiau oedran iau. Os yw llai na 100% wedi cael y brechlyn, os nad yw'r brechlyn yn gwbl effeithiol (100%) a bod yr R0 ar gyfer amrywiolynnau newydd tua 4, gallai'r broses o lacio cyfyngiadau arwain at gynnydd cyflym mewn achosion o

[8] Datganiad Ysgrifenedig: Cyfyngiadau lefel pedwar
[9] Grŵp Cynghori Technegol: ystyriaethau o ran newid trefniadau ysgolion i ganiatáu mwy o ddysgu wyneb yn wyneb, 5 Chwefror 2021 ; Gweinidog Addysg, Llythyr agored i benaethiaid, 5 Chwefror 2021.
[10] https://www.ecdc.europa.eu/en/publications-data/covid-19-risk-assessment-spread-new-sars-cov-2-variants-eueea
[11] SPI-M-O, Datganiad ar lacio ymyriadau anfferyllol ac ail-agor ysgolion, 27 Ionawr 2021 (Saesneg yn unig). Cadarnhawyd yn SPI-M-O, Datganiad Consensws, 10 Chwefror 2021 (Saesneg yn unig); gweler hefyd https://cmmid.github.io/topics/covid19/reports/comix/Comix%20Weekly%20Report%2043b-%20Effect%20of%20school%20opening.pdf

drosglwyddo'r feirws a mwy o bwysau ar y GIG. Fodd bynnag, efallai y bydd natur dymhorol y feirws a phobl yn cymysgu yn yr awyr agored yn ychwanegu at y ffactorau sy'n ffafrio cyfraddau trosglwyddo is wrth i ni nesáu at yr Haf.
Nod y gwaith modelu yn y papur hwn yw edrych ar effaith senarios gwahanol ar gyfer dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2021, gan gynnwys cymharu 'cam araf i fyny' â 'cham cyflym i fyny' a fyddai'n gweld pawb yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, o'u cyfuno â ffactorau eraill sy'n peri ansicrwydd, yn enwedig effeithiolrwydd y brechlyn, effaith amrywiolynnau newydd ar drosglwyddadwyedd y feirws, lefelau cydymffurfiaeth â chyfyngiadau a chamau i leihau cysylltiadau agos yn gyffredinol (a ddisgrifir fel 'cydymffurfiaeth'), a'r cyfyngiadau ehangach sydd ar waith yng Nghymru yn ystod y cyfnod. Mae'r gwaith modelu yn ceisio amcangyfrif effeithiau tebygol y senarios gwahanol hyn a'r tybiaethau sylfaenol ar gyfer achosion, derbyniadau i'r ysbyty, gwelyau llawn mewn unedau gofal dwys a marwolaethau yng Nghymru. Mae'r allbynnau data a ddangosir yn y papur hwn ar gael tan ddiwedd mis Mehefin / dechrau mis Gorffennaf ar hyn o bryd.

## 5. Senarios modelu wedi'u diweddaru gan Brifysgol Abertawe

Lluniodd Prifysgol Abertawe gyfres o senarios wedi'u modelu ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2021. Mae model Prifysgol Abertawe yn seiliedig ar fodel trosglwyddo dynamig COVID-UK, a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan Davies et al yn y Ganolfan Modelu Mathemategol Clefydau Heintus (Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain). Mae manylion llawn y model ar gael yn https://github.com/cmmid/covid-uk.

- Yn fras, mae gan fodel COVID-UK strwythur stocastig – mae'n olrhain hyd at 66.4 miliwn o bobl ar lefel y DU dros gyfnodau o 6 awr. O'r herwydd, mae'r allbwn yn debygolyddol a gellir cael dosbarthiad o ganlyniadau drwy ddefnyddio set sefydlog o baramedrau.
- Rhennir oedran yn 16 o fandiau oedran, gyda'r ddemograffeg yn cael ei darparu ar lefel awdurdod lleol.
- Mae chwe chyflwr o ran clefydau: Tueddol/Tebygol (S), ac ar ôl trosglwyddiad llwyddiannus 'Wedi'i Amlygu' (E) ond ddim yn heintus. Ar ôl cyfnod diddigwydd, mae tua 50% o unigolion heintus yn asymptomatig (Is), tra bod y gweddill yn mynd i gyflwr cyn-glinigol ond heintus (Ip), wedyn cyflwr heintus symptomatig clinigol (Ic) a wedyn cyfnod ynysu a gwella (R). Defnyddir dosbarthiad gama ar gyfer yr amseroedd aros ym mhob cyflwr.
- Defnyddir cyfraddau derbyn i'r ysbyty (oedran-benodol), cyfraddau marwolaethau a hyd yr arhosiad yn yr ysbyty, a amcangyfrifir o gamau cynnar y pandemig, i fonitro effaith yr epidemig a chapasiti'r gwasanaeth iechyd.
- Mae astudiaeth POLYMOD yn cynnig disgrifiad manwl o gyfraddau trosglwyddo rhwng unigolion yn seiliedig ar batrymau cymysgu cymdeithasol

mesuredig. Darperir matrics cysylltiadau ar gyfer y cartref, yr ysgol, y gwaith a'r gymuned, a chaiff pob un ohonynt eu haenu yn ôl band oedran.
- Wedyn, cyfrifir grym yr haint ar adeg 't' ar gyfer unigolyn drwy luoswm y rhagdueddiad i gael haint ar ôl cael cysylltiad a nifer y cysylltiadau fesul diwrnod (pob un yn benodol i oedran).
- Ystyrir senarios drwy amserlennu newidiadau i nifer y cysylltiadau a ddisgwylir ym mhob grŵp oedran, a sut mae hyn yn amrywio dros amser, er enghraifft pan fydd ysgolion yn agor/cau, pan fydd mesurau cyfnod clo yn arwain at leihad dramatig yn nifer y cysylltiadau, a phan fydd y broses o lacio'r cyfyngiadau yn arwain yn raddol at gynnydd yn y gyfradd cysylltiadau.
- Yn dilyn addasiadau i ganiatáu ar gyfer amodau cychwynnol hyblyg a'r broses o amserlennu cyfuniadau o ymyriadau mewn ffordd hyblyg dros gyfnodau hir o amser, mae'r fersiwn o'r model sy'n cael ei defnyddio ar gael ar gyfleuster storio codau Prifysgol Abertawe (https://github.com/sa2c/covid-uk ).

Mae'r ystyriaethau allweddol sy'n amrywio rhwng y gwahanol senarios a fodelwyd fel a ganlyn:

### Lefel y cyfyngiadau ledled Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod pedair lefel rybudd ar gyfer ymateb y cyhoedd i lefelau bygythiadau, y mae angen mesurau arnynt sydd wedi'u cynllunio i reoli lledaeniad y feirws ac i ddiogelu iechyd pobl. [12] Mae Cymru wedi bod yn destun cyfyngiadau Lefel 4 ers 20 Rhagfyr 2020. Rydym wedi defnyddio map trywydd y DU sydd wedi'i addasu i ddyddiadau penderfyniadau yng Nghymru er mwyn ystyried y digwyddiadau dros gyfnod hwy. Mae'r senarios a fodelwyd yn y papur hwn yn tybio'r senario canlynol ar gyfer lefel y cyfyngiadau a fyddai'n cael eu gosod ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn:
- Lefel rybudd 4 hyd at ddiwedd mis Mawrth,
- Lefel rybudd 3 hyd at 12 Ebrill 2021,
- Lefel rybudd 2 hyd at 17 Mai,
- Lefel rybudd 1 hyd at 21 Mehefin,
- Lefel rybudd 0 (ar agor yn llawn) o'r adeg honno ymlaen.
- Mae dyddiad yr etholiad (6 Mai 21 a 8 Gorffennaf 21) yn ddyddiad Lefel Rybudd 0.

### Effeithiolrwydd brechlynnau

Mae'r holl senarios a fodelir yn y papur hwn yn nodi amrywiaeth o bosibiliadau o ran pa mor effeithiol yw'r brechlyn yn erbyn digwyddiadau clinigol a throsglwyddiadau: cyfradd effeithiolrwydd o naill ai 60%, 75% neu 90%. Caiff hyn ei gynrychioli ym mhob ffigur gan fand sy'n cynrychioli'r amcangyfrifon isaf, yr amcangyfrifon canolig, a'r amcangyfrifon uchaf ar gyfer achosion, derbyniadau i'r ysbyty, gwelyau llawn mewn unedau gofal dwys a marwolaethau ym mhob model.

[12] Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru (14 Rhagfyr 2020).

## Lefelau ‘cydymffurfiaeth’

Caiff pob un o'r senarios a fodelir yn y papur hwn ei gyflwyno ddwywaith, ochr yn ochr â'i gilydd. Caiff y lefelau ‘cydymffurfiaeth’ yn y senarios hyn eu modelu gan dybio:

- ‘Cydymffurfiaeth dda’ (lle mae ‘cydymffurfiaeth’ ar lefel sy'n cyfateb i'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod atal byr yng Nghymru yn yr hydref)

‘Cydymffurfiaeth isel’ (lle mae ‘cydymffurfiaeth’ ar lefel sy'n cyfateb i'r hyn a welwyd yn ystod Rhagfyr 2020 yng Nghymru)
Yn y dadansoddiad hwn, mae cydymffurfiaeth isel neu dda yn cyfeirio at nifer y cysylltiadau a gaiff yr unigolyn. Gall y rhain newid o ganlyniad i'r cymhelliant i gydymffurfio, ond gallant hefyd ddibynnu ar y gallu i gydymffurfio, er enghraifft os bydd gweithleoedd yn ei gwneud yn ofynnol i bobl ddychwelyd i weithio ar y safle. Felly, yn ogystal â chydymffurfio â'r rheolau, mae a wnelo hefyd â faint o gysylltiadau mae pobl yn eu cael, a allai fod yn gyson â'r rheolau o hyd. Gwyddom fod lefelau cydymffurfiaeth yn ystod y pandemig wedi bod yn uchel hyd yn hyn a bod pawb wedi gwneud ymdrech enfawr i leihau nifer y cysylltiadau, cymryd mesurau rhagofalus (fel cyfarfod yn yr awyr agored, gwisgo gorchudd wyneb, golchi dwylo ac ati) a rheoli'r feirws. Yn y senarios hyn, mae cydymffurfiaeth dda yn debyg i'r lleihad a welwyd yn nifer y cysylltiadau yn ystod y cyfnod atal byr ym mis Hydref 2020, tra bod cydymffurfiaeth wael yn debycach i nifer y cysylltiadau a welwyd ym mis Rhagfyr 2020.

## Effaith Amrywiolynnau

Mae tair lefel o effaith wedi'u cynnwys o ran amrywiolynnau newydd: hen amrywiolyn, lle mae'r feirws yn ymddwyn fel ag yr oedd hyd at tua mis Tachwedd 2020, NV_0.4 lle mae'r amrywiolyn newydd yn ychwanegu tua 0.4 at y rhif Rt i ddechrau (ond bydd hyn yn newid dros amser yn seiliedig ar y ddynameg drosglwyddo) ac NV_0.6 lle mae'r amrywiolyn newydd yn ychwanegu tua 0.6 at y rhif Rt cychwynnol. Mae gwaith dadansoddi cyfredol yn Lloegr yn awgrymu y gall yr amrywiolyn newydd ychwanegu rhwng 0.4 a 0.7 at y rhif Rt, ond dim ond pe bai'r amrywiolyn newydd yn cyfrif am bob un o'r achosion y byddai hynny'n wir, ac mae'n bosibl y gallai'r R0 cefndirol yng Nghymru fod ychydig yn is nag yn Lloegr oherwydd bod mwy o bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, felly teimlir bod 0.6 yn werth uchel synhwyrol i'w ddefnyddio ar gyfer y gwaith modelu.

**Tybiaethau enghreifftiol ar gyfer y senarios hyn**
**Senarios ysgolion**:

Cam araf i fyny: 10%, 20%, 30%, 50%, 75%, 100%
Cam cyflym i fyny: 10%, 20%, 50%, 100%, 100%, 100%
h.y. mae dyddiadau'r camau ar ôl: hanner tymor mis Chwefror, 15 Mawrth, gwyliau'r Pasg, 5 Mai, hanner tymor y Sulgwyn, 28 Mehefin.

**Cyfraddau brechu:** 90% ym mhob senario ym mhob grŵp oedran
**Amserlen brechu:** nifer wirioneddol hyd at ddiwedd mis Chwefror, yna 15,000 y dydd. Effaith dos cyntaf yn unig a fodelir ar hyn o bryd. Nid oes ail ddos wedi'i gynnwys eto.
**Effeithiolrwydd y brechlyn:** 60, 75 a 90 y cant
**Cydymffurfiaeth Ymddygiadol**: Isel (sy'n cyfateb i gyfnod y Nadolig – cynyddodd nifer y cysylltiadau tua 10% ar ben y cyfyngiadau) ac Uchel (sy'n cyfateb i'r cyfnod atal byr)

**Amserlen Lefelau**:

Rydym wedi defnyddio map trywydd y DU sydd wedi'i addasu ar gyfer dyddiadau penderfyniadau yng Nghymru er mwyn ystyried y digwyddiadau dros gyfnod hwy. Lefel rybudd 4 hyd at ddiwedd mis Mawrth, Lefel rybudd 3 hyd at 12 Ebrill 2021, Lefel rybudd 2 hyd at 17 Mai, Lefel rybudd 1 hyd at 21 Mehefin, Lefel rybudd 0 (ar agor yn llawn) o'r adeg honno ymlaen. Mae dyddiad yr etholiad yn ddyddiad Lefel Rybudd 0.


## 6. Crynodeb o'r Canlyniadau

Dangosir y canlyniadau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, po hwyaf yn y dyfodol y mae'r rhagamcanion, y mwyaf yw lefel yr ansicrwydd.
Mae'r senario hwn yn cyfateb i 'fap trywydd' Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr; cyfyngiadau Lefel 4 hyd at 29 Mawrth, Lefel 3 hyd at 12 Ebrill, Lefel 2 hyd at 17 Mai, Lefel 1 hyd at 21 Mehefin, Lefel 0 (ar agor yn llawn) o'r adeg honno ymlaen. Mae'n bosibl y bydd Cymru yn fwy gochelgar na hyn wrth lacio cyfyngiadau – neu y gallai'r dyddiadau newid yn Lloegr – ond mae hyn yn rhoi senario bras o gyfyngiadau yn cael eu llacio dros amser wrth i fwy o bobl gael eu brechu ac wrth i achosion o COVID-19, gobeithio, barhau i ostwng.
O dan y senarios hyn, mae achosion a chanlyniadau eraill yn dechrau'n isel ym mis Ebrill ac yn cynyddu o fis Mai ymlaen. Mae canlyniadau yn dechrau lleihau ym mis Mehefin.
Mae effaith achosion o drosglwyddo'r feirws yn debygol o fod ar ei hisaf pan fydd yr achosion o COVID-19 ar ei hisaf. Felly, mae'r amcangyfrifon a fodelwyd yn argymell mai'r dyddiad gorau ar gyfer cynnal yr etholiad yw 6 Mai, yn hytrach nag 8 Gorffennaf. Y rheswm am hyn yw mai dyma'r dyddiad sydd agosaf at gyfnodau o gyfyngiadau sy'n llwyddo i leihau lledaeniad y feirws ar hyn o bryd.
Mae marwolaethau a nifer y gwelyau llawn mewn ysbytai yn gymharol isel hefyd ar ddechrau mis Mai. Fodd bynnag, maent yn uwch os oes lefelau isel o gydymffurfiaeth.

Mae'r ffigur canlynol yn dangos effaith etholiad ar 6 Mai.


Ffigur 1. Tueddiad mewn canlyniadau yng Nghymru ar gyfer senario'r DU, gyda chydymffurfiaeth dda/isel, effeithiau amrywiol amrywiolynnau newydd (cromliniau lliw), cam i fyny – ysgolion, ac effeithiolrwydd brechlynnau gwahanol (ardaloedd o amgylch llinellau tueddiadau).
1A. Achosion dyddiol

Cases L4MarchL3July-Extended





## 1B. Derbyniadau i'r ysbyty – unedau gofal dwys (achosion positif o COVID)

ICU occupancy [preval] L4MarchL3July-Extended



## 1C. Gwelyau llawn mewn ysbytai nad ydynt yn rhai mewn unedau gofal dwys (achosion positif o COVID)

Non-ICU occupancy [preval] L4MarchL3July-Extended




## 1D. Marwolaethau

Deaths [incid] L4MarchL3July-Extended

